Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymraeg Penalltau

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb


Mae arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth a'r dirprwy bennaeth, ynghyd â chefnogaeth staff cydwybodol, yn meithrin lles, gofal a chymorth disgyblion yn hynod effeithiol. Maent yn adnabod disgyblion yn dda ac mae ymdeimlad cartrefol a chynhwysol yn cefnogi disgyblion i arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod eu gweithgareddau, wrth ddysgu'n annibynnol, ac wrth chwarae â'u ffrindiau. Gwna'r disgyblion ddefnydd gwerthfawr o'r ardaloedd dysgu allanol, gan gynnwys y Goedlan, sy'n cyfrannu at eu lles a'u brwdfrydedd i ddysgu.

Mae athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol o oedran ifanc sy'n cynnwys dewis dulliau buddiol o gyflwyno'u gwaith, a chynnig syniadau am weithgareddau yr hoffent eu cwblhau.

Mae gweithgareddau ymarferol ar draws y meysydd dysgu yn cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'r themâu yn dda ac yn cefnogi'r rhan fwyaf i wneud cynnydd cadarn ar draws llawer o fedrau . Er hyn, nid yw cywirdeb, mynegiant, na rhuglder medrau darllen Cymraeg disgyblion wedi datblygu i'r un graddau a'u medrau darllen Saesneg.

Yn ystod sesiynau dysgu, mae llawer o staff yn defnyddio cwestiynu pwrpasol ac yn cynnig adborth llafar effeithiol i gefnogi dysgu disgyblion. Yn yr arferion cryfaf, mae staff yn ymateb yn adeiladol i atebion disgyblion ac yn addasu'r ddarpariaeth yn briodol, gan hybu cynnydd yn y dysgu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth staff i wella eu gwaith.

Mae gan staff berthnasoedd cadarnhaol â rhieni, gan gynnwys rhieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn cefnogi'r disgyblion sydd angen cefnogaeth bellach yn fwriadus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r modd y mae staff yn gweithio'n effeithiol gyda disgyblion a'u teuluoedd i wella presenoldeb a phrydlondeb yn gryfder.

Mae rhieni'n mynegi balchder bod eu plant yn mynychu'r ysgol groesawgar hon ac yn gwerthfawrogi'r ystod eang o brofiadau, ynghyd â'r gofal a'r sylw arbennig i hyrwyddo lles a ddarperir gan yr ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion

A2 Cysoni yr arferion effeithiol ar gyfer rhoi adborth i ddisgyblion er mwyn eu cefnogi ymhellach i wella eu gwaith.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/08/2026